


# Pecyn Cymorth
# **Volunteens**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WCVA
CGGC

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP

**footholdcymru.org.uk**

# Rhagair

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn fel rhan o'n prosiect Volunteens: Be Heard. Be Helpful. a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir mewn cydweithrediad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Nod y pecyn cymorth hwn yw cynnig fframwaith clir ac ymarferol ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n ceisio ymgysylltu â phobl ifanc fel gwirfoddolwyr. Mae'n tynnu ar fewnwelediad a phrofiadau gwerthfawr pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan ym mhrosiect Volunteens, gan ddarparu canllawiau i helpu sefydliadau i greu cyfleoedd cynhwysol, diddorol a gwerth chweil ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc.

Mae gwirfoddolwyr ifanc yn dod â safbwyntiau, creadigrwydd ac egni ffres i waith sefydliadau elusennol, ond mae eu denu a'u cadw yn gofyn am ddeall eu cymhellion, eu dewisiadau a'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn, gan gynnig camau ymarferol ar recriwtio, cadw ac ymgysylltu effeithiol â phobl ifanc. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi datblygiad ieuenctid drwy feithrin sgiliau, mentora, a chydnabod eu cyfraniadau.

Drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn, bydd sefydliadau mewn sefyllfa well i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n gyfeillgar i bobl ifanc ac sydd nid yn unig o fudd i'r bobl ifanc eu hunain ond sydd hefyd yn cryfhau gallu cyffredinol y sefydliadau a'u heffaith yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth am brosiect Volunteens, ac i archwilio adnoddau pellach, ewch i'n platfform ar-lein yn:
**www.volunteens.org.uk**



## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cael ei chynnig yn rhad ac am ddim a'r bwriad yw bod yn ganllaw cyffredinol i sefydliadau trydydd sector eraill sy'n gweithio neu'n ceisio gweithio gyda gwirfoddolwyr ifanc. Mae'n seiliedig ar ein profiad ni ac ni fwriedir iddo fod yn gyngor proffesiynol. Er ein bod yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth, nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau o unrhyw fath, datganedig neu oblygedig, ynghylch ei gywirdeb, ei gyflawnrwydd na'i addasrwydd at unrhyw ddiben penodol. Efallai na fydd y wybodaeth yn adlewyrchu'r datblygiadau neu arferion cyfreithiol mwyaf cyfredol. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, rydym yn eithrio'r holl atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth hon, neu ddibynnu arni. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, golled neu ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol.

Nid oes dim yn yr ymwadiad hwn yn ceisio eithrio na chyfyngu ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod, neu am dwyll neu gamliwio twyllodrus, nac unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio neu ei gyfyngu o dan y gyfraith berthnasol. Os oes angen cyngor penodol arnoch ar gyfer eich sefydliad, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol cymwys yn y meysydd perthnasol. Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru neu addasu'r ymwadiad hwn ar unrhyw adeg heb rybudd ymlaen llaw. Adolygwch yr ymwadiad hwn o bryd i'w gilydd am unrhyw newidiadau.

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 4

Ystyriaethau cyfreithiol wrth recriwtio gwirfoddolwyr ifanc .......... 5

Creu rôl ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc .......... 6

Polisïau Gwirfoddolwyr Ifanc .......... 8

Polisi Iechyd a Diogelwch .......... 10

Health and Safety Policy .......... 10

Ystyriaethau arbennig i bobl ifanc 16–17 oed .......... 11

Asesiad .......... 11

Goruchwylio .......... 12

Caniatâd Rhieni .......... 12

Treuliau .......... 13

Teithio .......... 13

Sefydlu a Hyfforddi .......... 14

Cymorth .......... 14

Casgliad .......... 15



# Cyflwyniad

**O fewn y trydydd sector, rydym yn dibynnu'n gyson ar ymroddiad ac ymdrechion gwirfoddolwyr i sicrhau bod ein prosiectau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus a bod cymunedau'n derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Yn draddodiadol, mae'r cysyniad o 'wirfoddoli' wedi bod yn gysylltiedig ag unigolion dros 18 oed. Fodd bynnag, drwy gydol ein prosiect Volunteens, rydym wedi darganfod bod nifer sylweddol o bobl ifanc yn awyddus i wirfoddoli; yn syml, nid oes ganddynt y wybodaeth o ble i ddechrau na sut i gymryd rhan. Dyma lle mae menter Volunteens: Be Heard. Be Helpful. yn camu i mewn.**







# Pam recriwtio gwirfoddolwyr ifanc?

**Ar hyn o bryd, mae llai na 24% o bobl ifanc yng Nghymru yn ymwneud â gwirfoddoli (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae hwn yn ystadegyn anffodus pan ystyriwn yr effaith drawsnewidiol y gall gwirfoddolwyr ifanc ei chael ar ein sefydliadau:**

## Dod â chreadigrwydd, egni a brwdfrydedd newydd

Mae gwirfoddolwyr ifanc yn aml yn cyfrannu safbwyntiau newydd, syniadau arloesol, ac egni deinamig a all roi bywyd ffres i'n prosiectau. Gall eu dull o ddatrys problemau a'u creadigrwydd helpu i ail-lunio heriau a chynnig atebion nad ydynt efallai wedi cael eu hystyried o'r blaen.

## Ymwybyddiaeth dechnolegol a gwybodaeth am dueddiadau

Mae llawer o bobl ifanc heddiw yn wybodus iawn o ran technoleg ac wedi'u cysylltu'n ddwfn â thueddiadau cyfredol a materion byd-eang. Pan fyddant yn ymuno â'n timau, maen nhw'n dod â chyfoeth o sgiliau digidol gyda nhw ond hefyd dealltwriaeth o sgyrsiau cymdeithasol cyfoes. Gall hyn wella ein gweithrediadau o ddydd i ddydd, p'un ai trwy wella dulliau cyfathrebu, cyfrannu at geisiadau ariannu, cynorthwyo gyda recriwtio prosiectau, neu gynnig syniadau newydd ar sut i farchnata ein mentrau.

## Cyfathrebu effeithiol â chyfoedion ac eiriolaeth ar lafar

Mae pobl ifanc yn aml yn cyfathrebu'n fwy effeithiol â'i gilydd nag y mae cenedlaethau hŷn yn ei wneud. Dyma lle gall gwirfoddolwyr ifanc ddod yn eiriolwyr pwerus dros eich sefydliad. Trwy sianeli anffurfiol fel ar lafar, sy'n aml yn cael ei weld yn fwy credadwy a dibynadwy na ffurfiau traddodiadol o allgymorth, gallant hyrwyddo eich prosiectau, eich ymgyrchoedd a'ch gwerthoedd. Drwy gael gwirfoddolwyr ifanc fel rhan o'ch tîm, rydych yn eu galluogi i rannu cenhadaeth a chyflawniadau'r sefydliad gyda'u cyfoedion yn naturiol, gan ehangu eich cyrhaeddiad mewn ffyrdd y gallai strategaethau cyfathrebu ffurfiol ei chael hi'n anodd eu cyflawni.

## Buddsoddi yn y dyfodol drwy ddarparu archwiliad galwedigaethol

I lawer o bobl ifanc, gwirfoddoli yw eu cam cyntaf i fyd gwaith. Er ei bod yn llai cyffredin heddiw i wirfoddolwyr drosglwyddo'n uniongyrchol i rolau cyflogedig, mae gwirfoddolwyr ifanc yn cael profiad amhrisiadwy sy'n eu galluogi i archwilio gwahanol lwybrau gyrfa, datblygu sgiliau newydd, a chael dealltwriaeth ehangach o wahanol sectorau. Mae'r cyfle hwn ar gyfer archwilio galwedigaethol nid yn unig o fudd i'r unigolyn ond hefyd yn helpu i feithrin gweithlu medrus a gwybodus yn y dyfodol.

Yn ei hanfod, mae gwirfoddolwyr ifanc yn cynnig llawer mwy na'u hamser; maent yn dod ag amrywiaeth o fuddion gyda nhw a all wella'r sefydliad a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Drwy greu cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc wirfoddoli, rydym nid yn unig yn cryfhau ein gallu ein hunain i gael effaith, ond hefyd yn grymuso'r genhedlaeth nesaf i gymryd perchnogaeth o'u dyfodol a chyfrannu at newid cadarnhaol parhaol.

# Ystyriaethau cyfreithiol wrth recriwtio gwirfoddolwyr ifanc



**Wrth recriwtio gwirfoddolwyr ifanc, mae'n hanfodol cael dealltwriaeth glir o'r deddfau perthnasol sy'n ymwneud â chyflogi plant a phobl ifanc (y rhai o dan 18 oed). Er bod y deddfau hyn yn rheoli gwaith cyflogedig yn bennaf, mae'n arfer gorau eu cymhwyso i sefyllfaoedd gwirfoddoli hefyd, er mwyn sicrhau diogelwch, lles a chefnogaeth briodol pobl ifanc yn eich sefydliad.**

Yng Nghymru, mae'r term "person ifanc" fel arfer yn cyfeirio at unrhyw un rhwng 11 a 25 oed (CWVYS, 2024). Fodd bynnag, mewn termau cyfreithiol, diffinnir "plant" yn gyffredinol fel unrhyw un o dan 18 oed, fel y nodir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. At ddibenion yr adnodd hwn, pryd bynnag y byddwn yn cyfeirio at "wirfoddolwyr ifanc", neu "bobl ifanc" yn gwirfoddoli, rydym yn cyfeirio'n benodol at y rhai o dan 18 oed.

## Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

Er bod nifer o gyfyngiadau cyfreithiol sy'n llywodraethu cyflogi pobl ifanc, nid yw'r rhain yn ymestyn i rolau gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn hanfodol dilyn arferion gorau i amddiffyn gwirfoddolwyr ifanc a sicrhau profiad gwirfoddoli cadarnhaol a diogel. Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 [Adran 18] yn darparu canllawiau allweddol ar oriau ac amodau gwaith, ac rydym yn argymell cymhwyso'r egwyddorion hyn wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ifanc:

- **Oriau gwaith:** Ni ddylai gwirfoddolwyr ifanc wirfoddoli cyn 07:00 neu ar ôl 19:00, waeth beth fo'r diwrnod.
- **Dyddiau ysgol a dydd Sul:** Dylid cyfyngu gwirfoddoli i uchafswm o ddwy awr ar unrhyw ddiwrnod ysgol neu ddydd Sul.
- **Terfynau gwirfoddoli wythnosol:** Ni ddylai gwirfoddolwyr ifanc gymryd rhan mewn mwy na 12 awr o wirfoddoli yr wythnos, yn ystod y tymor ysgol.
- **Egwyl:** Am bob pedair awr o wirfoddoli, rhaid i bobl ifanc gael o leiaf un awr o egwyl.
- **Gwyliau ysgol:** Dylai gwirfoddolwyr ifanc gael o leiaf pythefnos heb wirfoddoli yn ystod gwyliau'r ysgol i sicrhau gorffwys digonol.

Er bod y darpariaethau hyn yn berthnasol yn benodol i blant a phobl ifanc mewn cyflogaeth, ystyrir bod cadw atynt ar gyfer gwirfoddolwyr o dan 18 oed yn arfer da.

Mae hyn nid yn unig yn cyd-fynd ag egwyddorion diogelu ond hefyd yn sicrhau nad yw gwirfoddolwyr ifanc yn cael eu gorlwytho neu eu bod yn destun amodau gwaith amhriodol.

## Caniatâd rhieni

Mae cael caniatâd rhieni yn agwedd bwysig arall ar reoli gwirfoddolwyr ifanc. Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol i gael caniatâd rhieni i bobl ifanc 17 a 18 oed sy'n gwirfoddoli, ystyrir ei fod yn arfer da, yn enwedig pan fyddant yn ymgymryd â rolau gwirfoddoli tymor hwy neu fwy dwys.

I bobl ifanc o dan 16 oed, rhaid cael caniatâd rhieni bob amser cyn iddynt ddechrau gwirfoddoli. Mae hyn yn helpu i ddiogelu gwirfoddolwyr ifanc, gan sicrhau bod eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn ymwybodol o'u rhan ac yn gefnogol o'u cyfranogiad yn y sefydliad. Mae hefyd yn caniatáu i rieni ddeall yr ymrwymiad a ddisgwylir gan eu plant ac mae'n darparu haen ychwanegol o ddiogelwch i'r person ifanc a'r sefydliad.

## Ystyriaethau diogelu

Yn ogystal â chydymffurfio â'r canllawiau cyfreithiol hyn, rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt fesurau diogelu priodol ar waith. Mae hyn yn cynnwys cael polisi diogelu sy'n mynd i'r afael yn benodol ag anghenion gwirfoddolwyr ifanc, arweinwyr diogelu dynodedig, a hyfforddiant i'r holl staff a fydd yn goruchwylio neu'n gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc. Trwy feithrin amgylchedd diogel a chefnogol, gall sefydliadau greu profiad cadarnhaol i wirfoddolwyr ifanc a sicrhau bod eu hawliau a'u lles yn cael eu parchu'n llawn.

Trwy ddilyn y canllawiau cyfreithiol ac arfer gorau hyn, gall sefydliadau recriwtio, cefnogi a rheoli gwirfoddolwyr ifanc yn hyderus mewn ffordd sy'n blaenoriaethu eu diogelwch, eu datblygiad a'u mwynhad.

## Pryd a ble mae angen gwiriadau DBS?

Gall deall pryd a pha lefel o wiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) sydd ei angen fod yn heriol, yn enwedig wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ifanc dan 18 oed. Mae sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol angenrheidiol yn hanfodol er mwyn diogelu pobl ifanc wrth iddynt wirfoddoli

## Gwiriadau DBS ar gyfer staff sy'n goruchwylio

Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n goruchwylio gwirfoddolwr ifanc o dan 18 oed gael gwiriad DBS. Mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gwirfoddolwyr ifanc wedi cael archwiliadau cefndir priodol i ddiogelu rhag unrhyw risgiau ac i gydymffurfio ag arfer gorau wrth ymgysylltu â phobl ifanc.

## Gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc

Mae cymhlethdod ychwanegol yn codi pan fydd gwirfoddolwyr ifanc 16-17 oed yn gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr ifanc eraill o dan 18 oed. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i bobl 16-17 oed hefyd gael gwiriad DBS os ydynt mewn sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod dros wirfoddolwyr iau. Er y gallai sicrhau gwiriad DBS ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc fod yn heriol, yn enwedig o ran cael mynediad at brawf adnabod dilys, mae'n gam angenrheidiol i sicrhau diogelwch pawb. Ni all pobl dan 16 oed gael gwiriad DBS ac efallai y bydd angen mwy o oruchwyliaeth a chymorth.

## Gweithgaredd a reoleiddir a gwiriadau DBS manylach

Bydd p'un a oes angen gwiriad DBS manylach yn dibynnu a yw'r rôl yn dod o dan yr hyn a ystyrir yn "Weithgaredd a Reoleiddir." Mae gweithgaredd a reoleiddir yn cyfeirio at fathau penodol o waith, yn enwedig pan fydd yn golygu dysgu, hyfforddi, goruchwylio neu ofalu am blant yn aml neu'n ddwys. Yn ôl canllawiau'r DBS, yng nghyd-destun gwirfoddolwyr ifanc, byddai Gweithgaredd a Reoleiddir yn cynnwys:

**"...dysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am, neu oruchwylio plentyn sydd o dan 16 oed mewn perthynas â'u cyflogaeth am fwy na thri diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod."**

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a ystyrir yn Weithgaredd a Reoleiddir, gallwch edrych ar adran gwefan y DBS ar "Weithgaredd a Reoleiddir gyda Phlant yng Nghymru a Lloegr" (DBS, 2024).



## Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr

Dylai pob gwirfoddolwr ifanc gael gweld copi o dystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr eich sefydliad. Mae'r yswiriant hwn yn cynnwys eich cyfrifoldeb am anaf neu salwch gwirfoddolwyr yn ystod eu lleoliad. Fel sefydliad, dylech wneud y canlynol:

- Adolygu eich polisïau yswiriant i sicrhau eu bod yn cynnwys gwirfoddolwyr o dan 18 oed.
- Gwirio pa gamau ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr ifanc.

Os nad yw eich Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yn cynnwys gwirfoddolwyr ifanc, rhaid i chi gysylltu â'ch darparwr yswiriant i drafod opsiynau darpariaeth briodol. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwr ifanc ddechrau ar eu lleoliad nes bod yr yswiriant hwn mewn lle.

# Creu rôl i wirfoddolwyr ifanc

**Wrth greu rolau gwirfoddoli i bobl ifanc, mae'n hanfodol sicrhau bod y tasgau'n ddiogel, yn addas ac yn ystyrlon ar gyfer eu hoedran a'u galluoedd. Rhaid ystyried eu galluoedd corfforol, emosiynol a seicolegol. Dylech:**

- Ystyried y math o wirfoddoli: A fydd y gwirfoddolwr ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu unigol?
- Mae gwirfoddoli teuluol yn caniatáu i berson ifanc wirfoddoli ochr yn ochr â'u teulu, gyda rhieni'n cadw cyfrifoldeb drwy gydol y cyfle gwirfoddoli. Yn yr achos hwn, mae dal yn rhaid i rieni gael eu briffio ar y gweithgareddau a'r ystyriaethau diogelwch.
- Gallai gwirfoddoli grŵp olygu bod pobl ifanc yn ymuno â grwpiau ieuenctid sefydledig neu ysgolion mewn gweithgareddau gwirfoddol. Mae cydweithio'n agos ag arweinwyr grŵp yn hanfodol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol ac yswiriant i'r gwirfoddolwyr ifanc. Er y byddech chi'n asesu'r risgiau ac yn rheoli'r gweithgaredd, byddai arweinydd y grŵp yn goruchwylio'r bobl ifanc.
- Mae trefnu eich grwpiau gwirfoddol eich hun yn rhoi cyfrifoldeb llawn i'ch sefydliad am greu'r cyfleoedd, goruchwylio'r gwirfoddolwyr ifanc, a sicrhau diogelwch pawb.

Gall gwirfoddoli unigol olygu goruchwyliaeth llai uniongyrchol. Felly, mae asesiadau risg trylwyr a disgrifiadau rôl clir yn hanfodol. Mae'r sefydliad yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am ddiogelwch y gwirfoddolwyr ifanc.

Penodi goruchwyliwr a enwir: Dylai fod gan bob gwirfoddolwr ifanc oruchwyliwr dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu tasgau'n briodol i'w hoedran ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw weithgareddau gwaharddedig. Rhaid i'r goruchwyliwr hwn hefyd sicrhau nad yw'r gwirfoddolwr ifanc byth yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth gydag aelodau o'r cyhoedd neu staff heb wiriadau DBS. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gwirfoddolwr arall a wiriwyd gan DBS yn gallu gweithredu fel goruchwyliwr.



## Rolau sy'n briodol i'w hoedran i wirfoddolwyr ifanc

Wrth ddylunio rôl wirfoddol i berson ifanc, gofynnwch y cwestiynau canlynol i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer eu hoedran a'u gallu:

- Pa sgiliau a phrofiad sydd eu hangen, ac a all y gwirfoddolwr ifanc ddatblygu'r rhain drwy gefnogaeth?
- A fydd y rôl hon yn dal sylw a diddordeb y gwirfoddolwr ifanc?
- Beth yw eu rhychwant sylw, a sut allwch chi gefnogi eu ffocws?
- A oes unrhyw addasiadau y gallech eu gwneud i sicrhau bod y rôl yn fwy addas ar gyfer gwirfoddolwr ifanc?

Mae rhai rolau sy'n anaddas i wirfoddolwyr ifanc, gan gynnwys:

- Tasgau y tu hwnt i allu corfforol neu seicolegol gwirfoddolwr ifanc.
- Rolau sy'n rhoi gwirfoddolwyr ifanc mewn perygl a allai niweidio eu hiechyd, megis dod i gysylltiad ag ymbelydredd.
- Tasgau sy'n peri risg uchel o ddamweiniau oherwydd eu diffyg profiad neu anallu i ragweld rhai peryglon.
- Rolau sy'n rhoi gwirfoddolwyr ifanc mewn amgylcheddau eithafol, megis gwres, sŵn neu ddirgryniad gormodol.
- Rolau sy'n cynnwys codi arian o ddrws i ddrws heb oedolyn yn bresennol.

# Creu disgrifiad rôl

Mae disgrifiad rôl wedi'i diffinio'n dda yn hanfodol i unrhyw wirfoddolwr, ac nid yw gwirfoddolwyr ifanc yn eithriad. Mae disgrifiad rôl yn sicrhau bod y sefydliad a'r gwirfoddolwr ifanc yn deall cyfrifoldebau, disgwyliadau a ffiniau'r rôl. Wrth greu disgrifiad rôl ar gyfer gwirfoddolwr ifanc, ystyriwch y canlynol:

- Beth yw'r rôl? A yw'r tasgau'n addas ar gyfer oedran a gallu'r gwirfoddolwr ifanc?
- Pam maen nhw'n gwneud y rôl? Ydy'r rôl yn ystyrlon? Pa werth fydd yn ei roi i'r sefydliad, ac a fydd y gwirfoddolwr ifanc yn teimlo'u bod yn cyflawni?
- Beth yw'r ymrwymiad amser? A yw hwn yn ddigwyddiad untro neu'n rôl barhaus? Eglurwch faint o oriau yr wythnos neu bob digwyddiad y disgwylir i'r gwirfoddolwr ifanc gyfrannu.
- Lle bydd y gwirfoddoli yn digwydd? Ai mewn un lleoliad neu mewn sawl lle? A fydd angen cludiant ar y gwirfoddolwr ifanc, ac a yw'r lleoliad yn ddiogel iddyn nhw?
- Pa sgiliau a phrofiad sydd eu hangen? Gallai hyn gynnwys priodoleddau fel brwdfrydedd, gwaith tîm, a pharodrwydd i ddysgu yn hytrach na sgiliau proffesiynol penodol.
- A fydd angen hyfforddiant? Os felly, amlinellwch pa hyfforddiant sydd ei angen, pwy fydd yn ei ddarparu, ac a oes unrhyw gostau cysylltiedig.
- Pwy fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwr ifanc? Nodwch eu goruchwyliwr a'r tîm ehangach, gan sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u gwirio gan DBS.
- Pwy yw pwynt cyswllt y gwirfoddolwr ifanc a'u teulu? Rhowch fanylion cyswllt unigolyn penodol ac eglurwch pryd y gellir eu cyrraedd. Sicrhewch bod gan yr unigolyn hwn y cliriad DBS a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi gwirfoddolwr ifanc.
- Pa oruchwyliaeth a chefnogaeth fydd y gwirfoddolwr ifanc yn ei dderbyn? Eglurwch pwy fydd yn darparu'r cymorth hwn a pha mor aml y bydd yn digwydd.
- Beth yw'r buddion i'r gwirfoddolwr ifanc? Pam dylai gwirfoddolwr ifanc ddewis gweithio gyda'ch sefydliad? Beth y gallant ei ennill o'r profiad, a sut y gallant ei ddefnyddio yn y dyfodol?
- Pa fuddion y mae'r sefydliad yn eu cael o gael gwirfoddolwyr ifanc? Ystyriwch yr effaith y bydd gwirfoddolwyr ifanc yn eu cael ar eich sefydliad, y tîm a'r gymuned ehangach.
- Pa gostau y gellir eu had-dalu? Amlinellwch yn glir pa dreuliau y gellir ac na ellir eu had-dalu ac eglurwch y broses ad-dalu.

Trwy ddylunio rolau yn feddylgar a dilyn canllawiau cyfreithiol a diogelu, gall sefydliadau greu cyfleoedd ystyrlon, deniadol a diogel i wirfoddolwyr ifanc gyfrannu a ffynnu.



# Polisïau Gwirfoddolwyr Ifanc

**Gall cynnwys gwirfoddolwyr ifanc fod o fudd nid yn unig i'r person ifanc eu hunain ond hefyd i'ch sefydliad a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae sicrhau llwyddiant a diogelwch y trefniadau hyn yn gofyn am gynllunio a datblygu polisi gofalus. Un o'r camau allweddol yw creu Polisi Gwirfoddolwyr Ifanc cynhwysfawr.**

Mae dau ddull cyffredin o ddatblygu polisi o'r fath:

- **Integreiddio ystyriaethau gwirfoddolwyr ifanc i bolisïau presennol:** Mae'r dull hwn yn cynnwys adolygu'r holl ganllawiau a pholisïau sefydliadol perthnasol, gan sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc.
- **Creu Polisi Gwirfoddolwyr Ifanc annibynnol:** Fel arall, gallwch ddewis datblygu polisi ar wahân wedi'i neilltuo'n llwyr i anghenion, hawliau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr ifanc.

Ni waeth pa ddull rydych chi'n ei ddewis, mae'n hanfodol sicrhau bod eich polisi'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- **Cod Ymddygiad:** Sefydlwch god ymddygiad clir neu gytundeb sy'n amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc a'r oedolion y maent yn gweithio â nhw. Mae hyn yn helpu i gynnal amgylchedd diogel a pharchus i bawb.
- **Pwynt cyswllt dynodedig:** Nodwch brif bwynt cyswllt ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc—rhywun y gallant gysylltu â nhw os ydynt yn dod ar draws unrhyw faterion neu bryderon yn ystod eu lleoliad.
- **Goruchwylio a gwiriadau DBS:** Sicrhewch nad yw gwirfoddolwyr ifanc yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth ac nad ydynt yn cael eu gadael yng ngofal unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr heb wiriad DBS cyfredol.
- **Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr:** Gwiriwch fod eich Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yn cynnwys gwirfoddolwyr ifanc ac eglurwch hyn yn glir i'r gwirfoddolwyr a'u rhieni neu warcheidwaid.
- **Cytundebau ysgrifenedig:** Darparwch gytundeb ysgrifenedig wedi'i lofnodi gyda phob gwirfoddolwr ifanc, gan amlinellu'n glir eu rôl, cyfrifoldebau a disgwyliadau. Mae hyn yn ffurfioli'r ymrwymiad ac yn sicrhau bod pawb ar yr un dudalen.

# Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae gan bob sefydliad ddyletswydd gofal i'w holl wirfoddolwyr, gan gynnwys gwirfoddolwyr ifanc. Rhaid i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc gael Polisi Iechyd a Diogelwch wedi'i ddiweddaru sy'n mynd i'r afael â rhwymedigaethau penodol o dan gyfraith y DU, yn enwedig Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999).

Rhaid i'ch Polisi Iechyd a Diogelwch fynd i'r afael yn benodol â'r ystyriaethau allweddol canlynol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ifanc:

## Osgoi cyflwyno gwirfoddolwyr ifanc i risgiau oherwydd:

- Diffyg profiad.
- Diffyg ymwybyddiaeth o risgiau posibl neu bresennol.
- Diffyg aeddfedrwydd corfforol neu feddyliol.

## Ystyriwch amgylchedd y gweithle, gan gynnwys:

**Cynllun y gweithle.**

- Unrhyw beryglon corfforol, biolegol neu gemegol y gall gwirfoddolwyr ifanc fod yn agored iddynt.
- Gwirfoddolwyr ifanc yn trin offer gwaith.
- Trefnu prosesau gwaith.
- Yr hyfforddiant iechyd a diogelwch sydd ei angen ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc.
- Risgiau sy'n gysylltiedig ag asiantau, prosesau, neu'r math o waith sy'n cael ei wneud.

**Cwestiynau penodol am natur y gwaith**

- A yw'r dasg yn briodol ar gyfer gallu corfforol a seicolegol y gwirfoddolwr ifanc? Er enghraifft, mae'n rhaid i chi ystyried a yw gwrthrychau yn rhy drwm i'w cario neu gyfarwyddiadau'n rhy gymhleth?
- A yw'r dasg yn cynnwys dod i gyswllt â sylweddau gwenwynig, carsinogenau, neu ddeunyddiau niweidiol eraill? Rhaid peidio â pheryglu gwirfoddolwyr gan risgiau o sylweddau a all niweidio iechyd pobl neu gael effeithiau cronig, fel ymbelydredd.
- A oes perygl o ddamweiniau oherwydd diffyg profiad neu ddiffyg hyfforddiant?
- A yw'r gwaith yn cynnwys oerfel, gwres, sŵn neu ddirgryniad eithafol?

Rhaid i sefydliadau ystyried y ffactorau hyn i sicrhau nad yw gwirfoddolwyr ifanc yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd peryglus. Hyd yn oed os yw'r gwaith yn dod o fewn canllawiau iechyd a diogelwch cyffredinol i oedolion, ni ddylai gwirfoddolwyr ifanc gymryd rhan mewn mathau penodol o waith sy'n peri risgiau penodol.

# Ystyriaethau arbennig i bobl ifanc 16–17 oed

**Pan fydd gwirfoddolwr ifanc yn 16 neu 17 oed, mae deddfwriaeth wahanol yn berthnasol. Yn yr achosion hyn, gall gwirfoddolwyr ifanc gymryd rhan mewn mathau penodol o waith os:**

- Yw'r gwaith yn hanfodol ar gyfer eu hyfforddiant.
- Mae'r gwaith bob amser yn cael ei oruchwylio gan unigolyn cymwys.
- Mae'r risgiau yn cael eu lleihau i'r lefel isaf sy'n ymarferol.

Mae'n hanfodol eich bod yn cyfleu risgiau posibl i rieni neu warcheidwaid gwirfoddolwyr ifanc, hyd yn oed os gwneir hyn yn anffurfiol mewn sgwrs. Rhaid hysbysu rhieni o'r mesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eu plant.



# Asesiad Risg

Yn ogystal â datblygu Polisi Gwirfoddolwyr Ifanc a diweddaru eich Polisi Iechyd a Diogelwch, rhaid cynnal Asesiad Risg penodol ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc. Mae hyn yn sicrhau bod eu hanghenion a'u gwendidau unigryw yn cael sylw, ac mae'n tynnu sylw at unrhyw ragofalon arbennig sy'n ofynnol i'w diogelu.

Hyd yn oed os oes gan eich sefydliad eisoes asesiadau risg cyffredinol ar waith, rhaid i chi greu asesiad risg ar wahân sy'n canolbwyntio ar y risgiau penodol y gallai gwirfoddolwyr ifanc eu hwynebu. Dylid rhannu'r asesiad risg hwn gyda'r gwirfoddolwyr ifanc a'u rhieni neu warcheidwaid.

Elfennau allweddol i'w cynnwys mewn asesiad risg sy'n benodol ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc:

- **Asesiadau risg cyn cychwyn:** Aseswch risgiau posibl cyn i'r gwirfoddolwr ifanc ddechrau ar eu rôl.
- **Lleoliad a chynllun gweithle:** Penderfynwch ar y risgiau sy'n gysylltiedig â lle bydd y gwirfoddolwr ifanc yn gweithio.
- **Peryglon corfforol, biolegol neu gemegol:** Nodwch unrhyw sylweddau neu gyfryngau niweidiol y gallai'r gwirfoddolwr ifanc eu hwynebu, gan gynnwys hyd a maint y risg.
- **Offer a phrosesau gwaith:** Gwerthuswch unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag offer gwaith y bydd y gwirfoddolwr ifanc yn eu trin.
- **Aeddfedrwydd a phrofiad:** Ystyriwch anaeddfedrwydd seicolegol neu gorfforol y gwirfoddolwr ifanc a'u diffyg profiad gyda thasgau neu risgiau penodol.
- **Gofynion goruchwylio:** Nodwch lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen yn seiliedig ar oedran ac aeddfedrwydd y gwirfoddolwr ifanc. Nodwch pwy fydd yn darparu goruchwyliaeth a beth yw eu cyfrifoldebau.

Ar ôl cynnal yr asesiad risg, gall sefydliadau benderfynu nad yw tasgau penodol yn addas ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc oherwydd y risgiau dan sylw. Yn yr achosion hyn, dylid gwahardd gwirfoddolwyr ifanc rhag cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny.

Mae arfer gorau hefyd yn pennu y dylai rhieni a gwarcheidwaid gwirfoddolwyr ifanc gael gwybod am ganfyddiadau allweddol asesiadau risg. Mae hyn yn helpu i'w sicrhau bod mesurau priodol ar waith ac yn caniatáu cyfathrebu agored ynghylch unrhyw bryderon. Mae trafod y canfyddiadau hyn gyda gwirfoddolwyr ifanc hefyd yn bwysig—efallai y byddan nhw'n rhoi adborth gwerthfawr neu awgrymiadau ar gyfer mesurau diogelwch ychwanegol.



# Goruchwylio

Mae goruchwyliaeth effeithiol yn hanfodol i sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr ifanc yn y gweithle. Dylai fod gan bob gwirfoddolwr ifanc oruchwyliwr a enwir sy'n gyfrifol am oruchwylio'u gwaith, darparu arweiniad, a sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel yn ystod eu lleoliad.

- **Cliriad DBS:** Rhaid i'r goruchwyliwr gael gwiriad DBS clir ac yn ddelfrydol dylai fod â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc.
- **Goruchwylio parhaus:** Dylid cynnwys amser yn amserlen y gwirfoddolwr ifanc ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd, gan sicrhau cysondeb o ran arweiniad a chymorth.
- **Goruchwylio'n seiliedig ar aeddfedrwydd:** Dylai lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen gael ei bennu gan aeddfedrwydd y gwirfoddolwr ifanc, yn hytrach na'u hoedran. Er ei bod yn arfer da cael o leiaf dau oedolyn yn goruchwylio gwirfoddolwyr ifanc, efallai na fydd hyn bob amser yn ymarferol.

Dylai goruchwyliwr bob amser fod ar gael i ymyrryd os oes angen a sicrhau bod y gwirfoddolwr ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy gydol eu hamser gyda'r sefydliad. Nid gofyniad cyfreithiol yn unig yw goruchwylio cyson ond mae'n amddiffyniad hanfodol i les gwirfoddolwyr ifanc.

# Caniatâd Rhieni

Mae sicrhau caniatâd rhieni gwirfoddolwyr ifanc yn sicrhau bod eu rhiant neu warcheidwad yn deall yn llawn gwmpas y rôl wirfoddoli, yr amgylchedd lle bydd y person ifanc yn gweithio, a'r disgwyliadau a osodir arnynt. Mae'r cam hwn yn hanfodol nid yn unig ar gyfer diogelu'r gwirfoddolwr ifanc ond hefyd ar gyfer meithrin ymddiriedaeth rhwng y sefydliad a'r teulu.

Er mwyn cael caniatâd rhieni yn iawn, dylai sefydliadau:

- **Gael cytundeb ysgrifenedig gan rieni neu warcheidwaid:** Yn dibynnu ar oedran y gwirfoddolwr ifanc, dylai sefydliadau sicrhau cytundeb ysgrifenedig yn amlinellu rôl, cyfrifoldebau, ac unrhyw dasgau neu ymrwymiadau penodol.
- **Ceisio caniatâd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau penodol:** Ar gyfer tasgau neu weithgareddau penodol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys risgiau uwch (e.e. aros dros nos, teithiau y tu allan i'r ardal leol, neu amgylcheddau peryglus), mae'n hanfodol cael caniatâd ysgrifenedig ar wahân.
- **Ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi:** Dylai pob ffurflen gydsynio gael ei llofnodi gan riant neu warcheidwad y gwirfoddolwr ifanc i ffurfioli eu dealltwriaeth a'u cymeradwyaeth o'r trefniant gwirfoddoli.
- **Darparu gwybodaeth polisi allweddol:** Rhannu dogfennau hanfodol fel Polisi Diogelu, Polisi Iechyd a Diogelwch y sefydliad, ac unrhyw Asesiadau Risg gyda rhieni neu warcheidwaid. Mae hefyd yn fuddiol cynnig y wybodaeth hon i'r gwirfoddolwyr ifanc eu hunain er mwyn rhoi gwybod iddynt am weithdrefnau diogelwch.
- **Trafodwch lefelau cysur gyda'r gwirfoddolwr ifanc:** Cyn dechrau, trafodwch fanylion y rôl wirfoddoli gyda'r gwirfoddolwr ifanc i sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus gyda'r tasgau dan sylw. Dylid cydnabod unrhyw bryderon sydd ganddynt, a darparu opsiynau eraill lle bo hynny'n bosibl.
- **Casglu gwybodaeth gyswllt brys:** Rhaid i sefydliadau gasglu manylion cyswllt brys cyfredol ar gyfer y gwirfoddolwr ifanc er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau priodol os bydd argyfwng.
- **Caniatâd cyfryngau:** Sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y gwirfoddolwr ifanc a'u rhiant/gwarcheidwad cyn tynnu unrhyw ffotograffau neu recordio fideos. Dylai hyn gynnwys manylion ar sut a ble y bydd y delweddau'n cael eu defnyddio (e.e. cyfryngau cymdeithasol, gwefan, cylchlythyrau).

# Treuliau

I lawer o wirfoddolwyr ifanc, gall costau fod yn rhwystr sylweddol i gymryd rhan. Er nad yw bob amser yn ymarferol i sefydliadau dalu'r holl gostau, mae treuliau penodol y dylai sefydliadau ystyried eu had-dalu er mwyn sicrhau hygyrchedd a thegwch i wirfoddolwyr ifanc. Gallai'r rhain gynnwys:

- **Costau teithio:** Mae hyn yn cynnwys talu costau trafnidiaeth gyhoeddus neu danwydd ar gyfer teithio i'r lleoliad gwirfoddoli ac oddi yno, yn ogystal ag unrhyw deithio a wneir yn ystod y diwrnod gwirfoddoli.
- **Costau gofal plant:** Os yw'n berthnasol, ystyriwch gynnig cymorth i wirfoddolwyr ifanc a allai fod â chyfrifoldebau gofal plant.
- **Bwyd a diod:** Darparu lwfans cymedrol neu brydau bwyd i gwrdd â chostau bwyd a diod yn ystod oriau gwirfoddoli.
- **Deunyddiau ac offer:** Ad-dalu cost deunyddiau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl wirfoddoli, megis deunydd ysgrifennu, offer diogelwch, neu ddillad amddiffynnol.
- **Costau hyfforddi neu ddigwyddiadau:** Talu'r ffioedd ar gyfer unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau perthnasol y mae angen i'r gwirfoddolwr eu mynychu fel rhan o'u rôl.

Trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol posibl hyn, mae sefydliadau'n ei gwneud hi'n haws i wirfoddolwyr ifanc gymryd rhan lawn yn eu rolau. Mae'r un mor bwysig cadw cofnod clir o'r holl dreuliau, gan fanylu ar y symiau a ad-dalwyd a phwrpas y gwariant.

# Teithio

Gall cludiant fod yn her sylweddol i wirfoddolwyr ifanc, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gymorth rhieni. Rhaid i sefydliadau ystyried y cyfyngiadau hyn wrth ddylunio rolau gwirfoddoli neu ddewis lleoliadau gwirfoddoli. Mae ystyriaethau teithio allweddol yn cynnwys:

- **Agosrwydd at gludiant cyhoeddus:** Sicrhewch bod lleoliadau gwirfoddol yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall lleoliadau ymhell o lwybrau trafnidiaeth annog gwirfoddolwyr ifanc i beidio â chyfranogi neu greu rhwystrau os na allant yrru.
- **Amseru a lleoliad gweithgareddau gwirfoddoli:** Gall amserlennu sifftiau gwirfoddolwyr yn ystod oriau hwyr y nos neu mewn lleoliadau anghysbell neu beryglus beri pryderon diogelwch. Dylai asesiadau risg ystyried diogelwch teithio, yn enwedig ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc.
- **Darparu opsiynau teithio diogel:** Mewn rhai achosion, efallai y bydd sefydliadau'n penderfynu mai cynnig gwasanaeth cludo, fel defnyddio cwmni tacsi ag enw da gyda gyrwyr sydd wedi'u gwirio gan DBS, yw'r ffordd orau o sicrhau diogelwch y gwirfoddolwr ifanc. Gellir cynnwys mesurau rheoli o'r fath yn yr asesiad risg i leihau'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â theithio.



# Sefydlu a Hyfforddi

Mae sefydlu a hyfforddi priodol yn hanfodol i wirfoddolwyr ifanc, gan sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rolau gwirfoddol yn ddiogel ac yn effeithiol. Dylai'r broses hon fod yn debyg i'r hyn a ddarperir i staff cyflogedig ond wedi'i theilwra i anghenion unigryw gwirfoddolwyr ifanc. Mae agweddau allweddol sefydlu a hyfforddi yn cynnwys:

- **Cyfleoedd hyfforddi:** Dylai gwirfoddolwyr ifanc gael mynediad at unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol i wella eu sgiliau neu gymwysterau. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant ffurfiol mewn iechyd a diogelwch, diogelu neu dasgau sy'n benodol i'r rôl.
- **Asesiad hyfforddiant a chymhwysedd cychwynnol:** Wrth ddechrau, dylai gwirfoddolwyr ifanc gael cyfnod hyfforddi cychwynnol, pan asesir eu gallu a'u cymwyseddau. Mae hyn yn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi mewn rolau a allai beryglu eu hunain neu eraill.
- **Sefydlu iechyd a diogelwch:** Dylid gwneud gwirfoddolwyr ifanc yn ymwybodol o beryglon a risgiau yn y gweithle a'r mesurau rheoli sydd ar waith. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol mewn cymorth cyntaf, gweithdrefnau gwacáu tân, a diogelu, gan sicrhau eu bod yn gwybod wrth bwy i adrodd yn achos unrhyw bryderon.
- **Goruchwylio a diogelu:** Ni ddylid byth gadael gwirfoddolwyr ifanc heb oruchwyliaeth, ac mae'n rhaid fod goruchwyliwr yn bresennol bob amser sydd wedi'i wirio gan y DBS. Mae goruchwyliaeth glir yn helpu i asesu gallu'r gwirfoddolwr yn barhaus ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer adborth a chefnogaeth.
- **Offer a dillad priodol:** Dylai sefydliadau ddarparu offer a dillad amddiffynnol o faint priodol, yn enwedig o ystyried y maint llai a'r cyfyngiadau corfforol a allai fodoli oherwydd oedran y gwirfoddolwr ifanc.
- **Ymwybyddiaeth staff a diogelu:** Sicrhewch bod yr holl staff yn cael eu hatgoffa o weithdrefnau diogelu, yn enwedig yr angen i beidio byth â gadael gwirfoddolwyr ifanc heb oruchwyliaeth. Dylid cyflwyno staff i'r person dynodedig sy'n gyfrifol am hyfforddiant a chymorth y gwirfoddolwr ifanc, gan sicrhau bod arweiniad cyson ar gael.

# Cymorth

Yn aml mae angen cymorth ychwanegol ar wirfoddolwyr ifanc o'i gymharu â gwirfoddolwyr hŷn neu staff cyflogedig. Gall rhai fod yn newydd i'r gweithle, yn fwy anaeddfed, neu'n delio â phwysau allanol fel ysgol neu heriau personol. Mae systemau cymorth effeithiol yn helpu gwirfoddolwyr ifanc i lwyddo a magu hyder yn eu rolau.

- **Systemau cyfeillio:** Gall paru gwirfoddolwyr ifanc gyda gwirfoddolwyr neu staff mwy profiadol ddarparu cefnogaeth anffurfiol, gan helpu'r gwirfoddolwr ifanc i lywio eu rôl gydag arweiniad gan gyfoedion.
- **Polisi drws agored:** Mae annog amgylchedd agored a hawdd mynd ato yn caniatáu i wirfoddolwyr ifanc deimlo'n gyfforddus yn gofyn am gymorth, trafod unrhyw heriau, neu godi pryderon heb betruso.
- **Cyfarfodydd un-i-un:** Mae cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda goruchwylwyr yn rhoi cyfle ffurfiol i wirfoddolwyr ifanc dderbyn adborth, gofyn cwestiynau, a mynegi unrhyw bryderon. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn gyfle i oruchwylwyr fonitro cynnydd a lles y gwirfoddolwr ifanc.
- **Cydnabod a pharchu:** Dylai gwirfoddolwyr ifanc dderbyn yr un lefel o barch a gwerthfawrogiad ag unrhyw aelod o staff. Dylid eu cydnabod am eu cyfraniadau a'u gwneud i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gall cydnabyddiaeth ddod ar wahanol ffurfiau, megis:
  - Cyfarfodydd adborth a chymorth rheolaidd.
  - Sesiynau datblygu neu gyfleoedd hyfforddi.
  - Cynlluniau gweithredu i helpu gwirfoddolwyr i dyfu yn eu rolau.
  - Achrediad neu wobrwyon i gydnabod eu cyflawniadau.
  - Llwyfannau sy'n codi llais y gwirfoddolwr ifanc, gan roi cyfleoedd iddynt rannu eu meddyliau a'u syniadau.

Mae annog staff a gwirfoddolwyr i ddangos gwerthfawrogiad a pharch tuag at wirfoddolwyr ifanc yn meithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle gallant ffynnu.

# Casgliad

Mae'r ddogfen hon wedi amlinellu'r ystyriaethau, y polisïau a'r arferion allweddol y dylai mudiadau gwirfoddol a chymunedol eu mabwysiadu wrth recriwtio a gweithio gyda gwirfoddolwyr ifanc. Trwy ddilyn y canllawiau a nodir yn y ddogfen hon, gall sefydliadau greu amgylchedd diogel, cefnogol ac ystyrlon lle gall pobl ifanc ffynnu, cyfrannu at eu cymunedau, a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Mae ymgysylltu â gwirfoddolwyr ifanc yn gofyn am gynllunio gofalus, o ddrafftio polisïau clir i ddarparu hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol. Mae'n hanfodol cael prosesau wedi'u diffinio'n dda ar gyfer cael caniatâd rhieni, ad-dalu treuliau, mynd i'r afael â phryderon teithio, a chynnig cefnogaeth gyson. Mae asesiadau risg wedi'u teilwra i wirfoddolwyr ifanc yr un mor bwysig, gan sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch yn benodol i'w hanghenion a'u lefelau aeddfedrwydd.

Er mwyn helpu sefydliadau i roi'r syniadau hyn ar waith, mae ystod o ddogfennau a thempledi ymarferol ar gael ar ein gwefan. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i symleiddio recriwtio, cadw a chefnogaeth barhaus gwirfoddolwyr ifanc, gan sicrhau bod eich sefydliad wedi paratoi'n llawn i ddiwallu eu hanghenion.

## Mae'r dogfennau'n cynnwys:

- **Templed polisi gwirfoddolwyr ifanc:** Fframwaith cynhwysfawr ar gyfer datblygu polisi wedi'i deilwra i ofynion unigryw gwirfoddolwyr ifanc.
- **Ffurflen caniatâd rhieni:** Ffurflen barod i'w defnyddio ar gyfer cael caniatâd rhieni, gan gwmpasu gwirfoddoli cyffredinol a gweithgareddau penodol.
- **Templed asesu risg:** Canllaw ar asesu risgiau sy'n benodol i wirfoddolwyr ifanc, gan sicrhau diogelwch ar bob cam o'u cyfranogi.
- **Templed polisi diogelu:** Polisi sy'n sicrhau bod gwirfoddolwyr ifanc yn cael eu diogelu ac yn deall y gweithdrefnau sydd ar waith i adrodd pryderon.
- **Ffurflen hawlio treuliau:** Ffurflen syml ar gyfer olrhain ac ad-dalu treuliau gwirfoddolwyr ifanc.
- **Rhestr wirio sefydlu:** Canllaw cam wrth gam i sefydlu gwirfoddolwyr ifanc, sy'n cwmpasu hyfforddiant hanfodol a gwybodaeth ddiogelwch.
- **Ffurflen caniatâd y cyfryngau:** Ffurflen i gael caniatâd i ddefnyddio ffotograffau neu fideos o wirfoddolwyr ifanc, gan sicrhau eglurder ar sut y bydd delweddau'n cael eu defnyddio.

Trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn, gall eich sefydliad sicrhau bod gwirfoddolwyr ifanc nid yn unig yn cael eu diogelu ond hefyd yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rolau, gan gyfrannu at brofiad gwirfoddoli cadarnhaol i bawb. Ein hymrwymiad ni yw rhoi'r offer sydd eu hangen arnoch i ymgysylltu a grymuso'r genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr, gan sicrhau y gall eich sefydliad barhau i wneud gwahaniaeth parhaol yn y gymuned.

Gyda'n gilydd, gallwn greu amgylchedd gwirfoddoli cynhwysol, cyfeillgar i ieuenctid sy'n datblygu cadernid ac yn meithrin twf i'r bobl ifanc ac i'r gymuned ehangach.

FOOTHOLD CYMRU

NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP

**The Lord Arthur Rank Centre,
Trostre Road, Llanelli,
SA14 9RA**

**01554 779910**
**Foothold Cymru**
**FootholdCymru**
**Foothold Cymru**
**Foothold Cymru**

**footholdcymru.org.uk**

Mae pob delwedd yn ffotograffau stoc Foothold Cymru ac nid ydynt yn ymwneud â'n prosiect Gwirfoddoli yng Nghymru

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 1188696 yw Foothold Cymru. Rhif cofrestru'r cwmni yw: 02633128.